**From:** Local Development Plan <ldp@rctcbc.gov.uk>
**Sent:** 02 February 2022 10:47
**To:** Local Development Plan <ldp@rctcbc.gov.uk>
**Subject:** Cytundeb Cyflenwi CDLl Diwygiedig RCT Revised LDP Delivery Agreement

**External Email -** Please use proper judgment and caution when opening attachments, clicking links, or responding. Report suspicious emails with SPAM PHISH button.

| | |
|---|---|
| Annwyl Syr/Madam,<br>**Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Rhondda Cynon Taf**<br>Mae'n bosibl eich bod yn gwybod bod Cyngor Rhondda Cynon Taf wedi dechrau paratoi Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) diwygiedig ym mis Medi 2020.<br>Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud ar baratoi'r CDLl diwygiedig ers hynny, a hyn drwy gydol pandemig COVID-19. Serch hynny, cafodd y pandemig a'r cyfyngiadau cysylltiedig effaith andwyol ar baratoi camau cychwynnol yr adolygiad yma.<br>O ganlyniad i'r uchod, yn anffodus doedd dim modd i ni gyflawni'r amserlen mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi ein Strategaeth a Ffefrir ar gyfer y CDLl diwygiedig ym mis Tachwedd 2021, fel sydd wedi'i nodi yn y Cytundeb Cyflawni ffurfiol. Rydyn ni wedi ystyried yn fanwl nifer o ffyrdd i fynd i'r afael â hyn.<br>**Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Arfaethedig Rhondda Cynon Taf 2022-2037**<br>Yn unol â hynny, mae'r ateb mwyaf priodol wedi'i gynnig (ond heb ei gytuno'n llawn eto gan Gyngor RhCT), sef atal gwaith baratoi'r CDLl diwygiedig presennol a dechrau paratoi CDLl diwygiedig newydd. Byddai cyfnod y cynllun yma'n 15 mlynedd – o 2022 tan 2037.<br>Er mwyn gwneud hyn, mae angen i ni baratoi Cytundeb Cyflawni newydd. Mae Cytundeb Cyflawni yn nodi amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun gan gynnwys pryd y byddwn ni'n ymgynghori â rhanddeiliaid ar wahanol adegau, yn ogystal â Chynllun Cynnwys y Gymuned sy'n nodi sut y byddwn ni'n ymgynghori â chi. Rydyn ni wedi paratoi Cytundeb Cyflawni Drafft ar gyfer CDLl diwygiedig arfaethedig 2022–2037. | Dear Sir/Madam,<br>**Rhondda Cynon Taf Revised Local Development Plan**<br>As you may be aware, Rhondda Cynon Taf Council began preparing a Revised Local Development Plan (RLDP) in September 2020.<br>Considerable work has been undertaken on the preparation of this RLDP since then and this throughout the COVID-19 pandemic. However, the pandemic and the associated restrictions had a detrimental effect on the preparation of these initial stages of the revision.<br>As a result, regrettably, we have been unable to meet the deadline of publishing our Preferred Strategy of the RLDP in November 2021, as is set out in the formal Delivery Agreement. Solutions have been considered in depth to address this.<br>**Proposed RCT Revised Local Development Plan 2022 – 2037**<br>Accordingly, the most appropriate solution has been proposed (but not yet fully agreed by RCT), to stop the preparation of the current RLDP and to begin preparation of a new Revised LDP. This would have a 15-year plan period from 2022 to 2037.<br>In order to do this, we need to prepare a new Delivery Agreement. A Delivery Agreement sets out a timetable for the plans production, including when we will consult stakeholders at various stages and a Community Involvement Scheme, which tells you how we will consult you. We have prepared a Draft Delivery Agreement for the proposed RLDP 2022 – 2037.<br>We would welcome comments on any part of the Delivery Agreement over the next three weeks, and request that you please submit any |

| | |
|---|---|
| Bydden ni'n croesawu sylwadau ar unrhyw ran o'r Cytundeb Cyflawni dros y tair wythnos nesaf. Dyma ofyn i chi gyflwyno unrhyw sylw drwy e-bost (i'r cyfeiriad e-bost yma (CDLl@rctcbc.gov.uk) erbyn 5yh ar 23 Chwefror 2022.<br>Mae modd darllen y Cytundeb Cyflawni Drafft ar ein tudalen we yma:<br>www.rctcbc.gov.uk/YmgynghoriadaryCynllunDatblyguLleolDiwygiedig<br>Mae rhagor o wybodaeth ar y dudalen we honno ynghylch sut rydyn ni wedi dod i'r penderfyniad yma, ynghyd â rhywfaint o ganllawiau cychwynnol ar Safleoedd Ymgeisiol a'r gwaith a wnaed hyd yma. Mae hefyd yn nodi gofynion pellach o ran dod i benderfyniadau.<br>Os nad ydych chi eisiau i ni gysylltu â chi am y Cynllun Datblygu Lleol rhagor, e-bostiwch CDLl@rctcbc.gov.uk i dynnu'ch enw oddi ar ein rhestr ymgynghori. Nodwch y bydd tynnu'ch enw oddi ar y rhestr yma yn golygu na fyddwn ni'n cysylltu â chi am unrhyw agwedd ar y Cynllun Datblygu Lleol.<br>*Er mwyn cael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu eich gwybodaeth bersonol, ewch i dudalennau Diogelu Data'r Cyngor: www.rctcbc.gov.uk/diogeludata.* | comment by email to this address (LDP@rctcbc.gov.uk) by 5pm on the 23rd of February 2022.<br>The Draft Delivery Agreement can be viewed on our webpage at the following location:<br>www.rctcbc.gov.uk/RevisedLocalDevelopmentPlanConsultation<br>There is further information on that webpage on how we have reached this decision, along with some initial guidance on Candidate Sites and work done to date. This also sets out further decision making requirements.<br>If you no longer wish to be contacted about the Local Development Plan please email LDP@rctcbc.gov.uk to be removed from our consultation list. Please note being removed from this list means you will no longer be contacted about any aspect of the Local Development Plan.<br>*To learn more about how your personal information will be used, please visit the Council's data protection pages at www.rctcbc.gov.uk/dataprotection.* |

Cofion - Regards,

**Owen Jones**
Rheolwr Gwasanaethau Datblygu (Polisi Cynllunio) – Development Services Manager (Planning Policy).
Ffyniant a Datblygiad | Prosperity and Development
*Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf County Borough Council*
Ty Sardis House, Heol Sardis Road, Pontypridd, CF37 1DU
Gwefan/Website http://www.rctcbc.gov.uk/planning
Ebost/Email Owen.L.Jones@rctcbc.gov.uk
*Ffon/Tel' - 01443 281129*
*Ext' 20945*